YSGOL DYFFRYN CONWY

CYLCHLYTHYR LLYTHRENNEDD

BLWYDDYN 10, 11, 12 AC 13

YSGOL DYFFRYN CONWY

LITERACY CIRCULAR

YEARS 10,11, 12 AND 13



Wrth i chi baratoi at gyfnod yr arholiadau cofiwch fod croeso i chi fynd i adolygu yn eich llyfrgell leol - mae yma le cysurus, cynnes a thawel lle medrwch gael llonydd i ddysgu

Cyfnod Adolygu



As you prepare for the exams period remember you are welcome go to revise in your local library-
there is a comfortable, warm and quiet place there where you can be work in peace.

Llyfrgell Llanrwst

Cefnogwch eich llyfrgell leol ... sut?

1. Ymaelodwch â'r llyfrgell
2. Dilynwch y llyfrgell ar y cyfryngau cymdeithasol
3. Ewch yno i swatio ar brynhawn gwlyb
4. Ymunwch â rhai o'r grwpiau / gweithgareddau sy'n digwydd gyda'r nos yno.

Oriau Agor Llyfrgell Llanrwst

- Dydd Llun, Mawrth, Iau a Gwerner: 9:30am i 5:00pm
- Dydd Mercher: 10:00am i 7pm
- Dydd Sadwrn: 9:30am i 12:30pm
- Dydd Sul Ar gau

Cyfleusterau

- Wi-Fi am ddim
- Mynediad am ddim i gyfrifiaduron cyhoeddus
- Argraffu, sganio a llungopio

E-bost: llyfrgell.llanrwst@conwy.gov.uk

Cliciwch yma i fynd i wefan y llyfrgell

Llanrwst Library

Support our local library.... How?

1. Join the library
2. Follow the library on social media
3. Go there to shelter on a wet afternoon
4. Join some of the groups/activities that take place in the evenings.

Llanrwst Library Opening Times

- Monday, Tuesday, Thursday and Friday:9:30am to 5:00pm
- Wednesday: 10:00 am to 7pm
- Saturday: 9:30am to 12:30pm
- Closed Sunday

Facilities

- Free Wi-Fi
- Free access to public computers
- Printing, scanning and photocopying

E-bost: llyfrgell.llanrwst@conwy.gov.uk
Cliciwch yma i fynd i wefan y llyfrgell

Cymorth wrth adolygu - CBAC

Cofiwch fod gwefannau ac adnoddau gwych ar gael i'ch cynorthwyo wrth adolygu. Mae gwefan CBAC yn fan gwych i ddechrau. Mae yma nodiadau arbennig wedi eu paratoi gan arbenigwyr ar bob agwedd o'ch cwrs

https://resources.wjec.co.uk/default.aspx

A dyma un arall gan CBAC lle gallwch wirio dyddiadau eich arholiadau a chael cyngor ar sut i drefnu a pharatoi ar gyfer cyfnod yr arholiadau....

https://www.cbac.co.uk/home/cefnogaeth-i-fyfyrwyr/

Bitesize

Gwefan arall hynod o ddefnyddiol yw Bitesize: Cliciwch ar y linc isod a chewch nodiadau a gweithgareddau i'ch harwain drwy'r papurau arholiad allanol

https://www.bbc.co.uk/bitesize/levels/z8w76sg

Support whilst revising

Remember there are great websites and resources out there to assist you whilst revising. The WJEC website is a great place to start. There are special revision notes that have been prepared by experts on every aspect of your course.

https://resources.wjec.co.uk/default.aspx

And here's another one from WJEC where you can check your exam dates and get advice on how to organize and prepare for exam period....

https://www.cbac.co.uk/home/cefnogaeth-i-fyfyrwyr/

Bitesize

Another extremely useful tool is Bitesize: Click on the link below and you will get activities to guide you through the external examination papers

https://www.bbc.co.uk/bitesize/levels/z8w76sg

#carudarllen

Bydd darllen yn sgil ALLWEDDOL bwysig i chi yn ystod y misoedd nesaf. Yn ogystal â bod yn sgil hanfodol i chi wrth ateb cwestiynau arholiadau gall darllen hefyd fod yn llesol i chi wrth ymlacio

Dyma gyngor da gan Jess Fishlock am ddarllen.....

“DWI DDIM YN MEDDWL FY MOD I ERIOED WEDI DARLLEN LLYFR HEB DDYSGU RHYWBETH, HYD YN OED OS MAI DIM OND PRIFDDINAS GWLAD YDYW.” “MAE GEN I DATŴ SYN DANGOS YR EFFAITH MAE LLYFRAU WEDI’I GAEL AR FY MYWYD.”

Mireinio eich sgiliau darllen

Angen help gyda’ch sgiliau darllen?

Dyma wefannau defnyddiol i chi wrth baratoi a mireinio’ch sgiliau darllen Cymraeg

Dysgu Carlam

Gwegogledd Uned 2

Gwegogledd Uned 3

#carudarllen

Reading will be a KEY important skill for you in the coming months.
As well as being an essential skill for you when answering exam questions
reading can also be beneficial for you while relaxing
Here's some good advice from Jess Fishlock about reading.....

"I DON'T THINK I'VE EVER READ A BOOK WITHOUT LEARNING SOMETHING, EVEN IF IT'S JUST THE CAPITAL OF A COUNTRY." "I HAVE A TATTOO TO SHOW THE THE EFFECT BOOKS HAVE HAD ON MY LIFE."

Need help with your reading skills?
Here are some useful websites for you to prepare and refine your Welsh reading skills

Dysgu Carlam
Gwegogledd Uned 2
Gwegogledd Uned 3

Angen cymorth wrth ddewis llyfrau/nofelau i'w darllen er pleser? Ewch i Son am lyfra/Silff lyfrau Sôn am lyfrau

PODLEDIAD

Ydych chi wedi gwrando ar bodlediad diweddaraf 'Caru Darllen' Cyngor Llyfrau Cymru? Mae yma argymhellion gwych am nofelau Cymraeg??

Yn y cyfamser....mwynhewch y darllen!

Need help choosing books/novels to read for pleasure? Go to:
Sôn am lyfrau

PODCAST

Have you listened to the latest podcast by the Books Council of Wales? There are some great recommendations here about Welsh novels.

In the meantime.....enjoy reading!

Fe wnaeth darllen a llyfrau fy helpu i fuddsoddi yn fy niddordeb mewn hanes, a wnaeth fy annog i'w astudio yn y brifysgol a nawr, mae'n yrfa hefyd.
Hathany Davies,
Crëwr cynnwys Tik Tok a hanesyod

Gallwch chi wir gymryd y gorau o lyfrau a'u rhoi ar waith yn eich bywyd eich hun.


Pe na bawn i wedi darllen y llyfrau hynny yn yr ysgol, fydden i ddim y person ydw i heddiw
Charlotte Harding,
Mam a Blogiwr

Efallai eich bod chi'n meddwl mai llyfr yw'r peth olaf sydd ei angen arnoch chi yn ystod argyfwng costau byw, ond fe allai fod y peth gorau i fuddsoddi ynddo ar hyn o bryd.
Jess Fishlock, MBE,
pêl-droediwr proffesiynol o Gymru

Tan tro nesaf, mwynhewch y darllen
Until next time.....enjoy reading